

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r gwaith o weithredu cynlluniau rheoli pysgodfeydd ac asesu'r effaith ar y bysgodfa, gan gydymffurfio â gofynion cyfreithiol perthnasol. Mae'n cynnwys monitro a rhoi gwybod am berfformiad y gweithgareddau rheoli i bawb sy'n gysylltiedig.

Mae'r safon hon yn gofyn am y gallu i ymateb i amrywiadau a wnaed i gynlluniau rheoli pysgodfeydd.

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau'n ddiogel, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion iechyd a diogelwch perthnasol, a'ch bod yn sicrhau bod gwaith yn cynnal bioddiogelwch ac yn lleihau tarfu amgylcheddol bob amser.

Bydd y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n rheoli cymhwyso'r safon hon yn amrywio yn ôl lleoliad y bysgodfa – yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. rheoli'r gwaith o weithredu cynlluniau rheoli pysgodfeydd ar gyfer pysgodfa, o fewn cyfyngiadau eich adnoddau
2. monitro'r gweithgareddau rheoli pysgodfeydd o fewn y cynllun i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, amgylcheddol, sefydliadol ac iechyd a diogelwch perthnasol
3. darparu cymorth i'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd
4. ymateb i amrywiadau a chyfyngiadau o'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd, gan wneud addasiadau, lle bo angen
5. asesu effaith y cynlluniau rheoli pysgodfeydd ar y bysgodfa
6. cynnal cyfathrebu â'r rhanddeiliad er mwyn hwyluso'r rheolaeth effeithiol ar y bysgodfa
7. cynnal cofnodion rheoli pysgodfeydd cywir, yn unol â gofynion eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gofynion cyfreithiol perthnasol yn gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd
2. y gofynion cyfreithiol perthnasol sy'n gysylltiedig â symud a stocio pysgod
3. y ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol yn gysylltiedig â rheoli cynefin yn eich pysgodfa
4. hanes bywyd a gofynion cynefin y rhywogaethau pysgod yn eich pysgodfa
5. clefydau cyffredin pysgod a dulliau atal a rheoli
6. sut i weithredu cynlluniau rheoli pysgodfeydd ar gyfer pysgodfa
7. yr adnoddau sy'n ofynnol i weithredu cynlluniau rheoli pysgodfeydd
8. dulliau arolwg a ddefnyddir i fonitro pysgodfeydd
9. sut dylai data pysgodfeydd gael ei gasglu a'i gofnodi
10. sut gellir gwella stociau pysgod, gan gynnwys defnyddio rhaglenni ailstocio
11. dulliau dal pysgod a sut gallant gael eu defnyddio i reoli pysgod mewn pysgodfa
12. y gofynion cyfreithiol perthnasol sy'n rheoli symudiadau pysgod
13. y camau y gellir eu cymryd i gywiro amrywiadau o fewn y cynlluniau rheoli pysgodfeydd
14. sut i adnabod effaith y cynlluniau rheoli pysgodfeydd ar y bysgodfa
15. pwysigrwydd cyfathrebu yn ystod gweithredu cynlluniau rheoli pysgodfeydd ac asesu ei effaith ar y bysgodfa
16. rheoli personél, gan gynnwys rheoli contractwyr mewn pysgodfa
17. diogelwch stoc pysgod a sut gellir rheoli presenoldeb rhywogaethau estron er mwyn cyfyngu ar eu heffaith ar ecoleg y bysgodfa frodorol
18. beth yw stoc pysgod cynaliadwy a beth yw ecsploetiaeth
19. y gofynion iechyd a diogelwch, amgylcheddol, bioddiogelwch a chyfreithiol perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd

Geirfa

Gweithgareddau rheoli pysgodfeydd:

1. cynnal a chadw cynefin
2. gwella cynefin
3. rheoli ecsploetio cynaliadwy
4. rheoli stoc pysgod yn gynaliadwy
5. monitro a chasglu data
6. rheoli diogelwch stoc
7. bioddiogelwch

Amrywiadau:

dylanwadau dynol
rhyngweithiadau ysglyfaethwr/ysglyfaethau
clefyd
prinder adnoddau
dirywiad cynefin
goresgyniad rhywogaethau estron

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2018
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Chwef 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANFiM26
Galwedigaethau perthnasol	Perchennog/Rheolwr, Beili/Warden, Prif Feili, Rheolwr Pysgodfa, Uwch Reolwr Pysgodfa, Swyddog Datblygu Pysgodfeydd
Cyfes/Set	Rheoli Pysgodfeydd
Geiriau Allweddol	pysgodfeydd; rheoli; cynefin; stoc; data
